The aim of the partnership is to create opportunities to work together to combat wildlife crime.

The Welsh Biodiversity Partnership (WBP) brings together key players from the public, private and voluntary sectors to promote and monitor biodiversity action in Wales. It provides a leadership role and an expert steer on priorities for action on biodiversity in Wales. WBP consists of a steering group (SG) and a wider partnership, supported administratively by a team drawn from the Countryside Council of Wales, Welsh Government, Forestry Commission and the Wildlife Trust Wales. A wildlife crime enforcement group has now been created within the partnership and will now own this Wildlife Crime Reduction Strategy and as such regularly report on its implementation progress to key stakeholders (See page 5 later). The WBP enforcement group will keep PAW informed their activities and will consider how actions identified by PAW can be delivered in Wales.

## **Strategic Vision**

The Strategic Vision of this Wildlife Crime Reduction Strategy is to:

*"Provide a co-ordinated partnership approach to wildlife crime reduction and its enforcement thereby ensuring that our rural environment remains a safe and prosperous place both for biodiversity and all who live work and visit it"*

## **Proposed Strategy**

The proposed strategy for achieving this vision is fourfold:

- Ensuring appropriate partnership arrangements are in place to enable the meaningful participation and empowerment of local communities in tackling wildlife & environmental crime;
- Shaping local enforcement activity around the requirements of our rural environments and the people that use them by ensuring joined up services across the localities that add value to other services such as those provided by the Local Authorities, NGO's, and the Private and Voluntary Sector;
- Improving quality of life and tackling those matters that cause most concern such as Anti - Social behaviour by ensuring that our services are responsive to local need through good quality co-participatory planning that facilitates effective and sustainable change;
- Promoting an educational approach to enable long term and sustainable change and improvement to tackling wildlife crime throughout Wales.

## **Strategic Objectives**

### **Partnership**

- To build trust and improve relationships between all groups with an interest in sustaining the wildlife and environment of Wales;
- To take the lead in considering strategic issues concerned with reducing and enforcing wildlife and environmental crime;
- To provide a single and unified 'Wales Wide' voice in opposing wildlife and environmental crime and promoting its reduction;
- To work to change perceptions and attitudes to wildlife and environmental crime;
- To build the brand of wildlife and environmental crime enforcement and reduction to become the primary source in Wales for information, guidance and delivery of good practice on wildlife and environmental crime;
- To share experience, knowledge and good practice across Wales and the wider UK in relation to wildlife crime enforcement and reduction;
- To change and reinforce public opinion against wildlife and environmental crime;
- To seek to access financial support to tackle wildlife and environmental crime.

## ***Enforcement & Legislation***

- To raise the profile of wildlife and environmental crime with relevant agencies and the communities at large;
- To seek to ensure wildlife and environmental crime is mainstreamed into the policy and practice of the relevant enforcement agencies;
- To support and enhance a national network of police wildlife and environmental crime officers and assist in the development of good practice to provide them with the best support in their role and connects to other relevant agencies;
- To promote and encourage the use of and research into forensic technologies for application in wildlife and rural crime investigations;
- To support the development and implementation of innovative projects that focus directly on the enforcement and reduction of wildlife and rural crime;
- To monitor and take an active interest in the use and effectiveness of wildlife and rural crime legislation;
- To monitor and report on significant cases and decisions to practitioners;
- To ensure that any new legislation and guidance within Wales makes best use of scientific advice;
- To ensure the provision of comprehensive and accurate data that can inform decision making;
- To provide a means by which wildlife crime priorities in Wales can be identified in an informed and transparent manner.

## ***Education & Guidance***

- To assist in the development and delivery of training and learning for wildlife and rural crime officers and staff from partner agencies that are involved in enforcing and reducing wildlife and rural crime;
- To develop good practice guides to enable officers, partner agency staff and members of the community fully understand their role in tackling wildlife and rural crime;
- To co-ordinate and deliver an annual 'Wales Wildlife Crime Conference' to facilitate the sharing and learning of good practice in the area of wildlife crime education and guidance.

## ***Delivering the Strategy***

These strategic objectives will be delivered through an associated Delivery Plan that is shown at Appendix A. The progress of delivery will be monitored through the *All Wales Biodiversity Partnership Wildlife Crime Enforcement Group* using the RAG process. This will also be periodically reported to the ACPO Cymru Chief Officer Lead.

## **Appendix A**

***All Wales Wildlife Crime Strategy – Delivery Plan***

Final 08/06/2017

## UK WILDLIFE CRIME PRIORITIES 2011 – 2013

PRIORITY <sup>1</sup>	PREVENTION	INTELLIGENCE	ENFORCEMENT
<b>BADGER PERSECUTION</b> <b>Plan Owner(s):</b> Barry Fryer (RSPCA); Mike Flynn (SSPCA); Stephen Philpott (USPCA) <b>Objective:</b> Improve and increase the recording of incidents, crimes and intelligence for Badger Persecution. Improve the investigation process and increase awareness of Badger Persecution across the UK	Lead: Ian Hutchison (Scottish Badgers) (Scotland and England & Wales)	Lead: NWCU	Lead(s): Mark Rasbeary (North Yorks); Ian Briggs (RSPCA) (England & Wales); Charlie Everitt (NWCU); Jim Cormack (SSPCA) (Scotland)
<b>BAT PERSECUTION</b> <b>Plan Owner:</b> Julia Hanmer (BCT) <b>Objective:</b> To reduce bat crime by: ~ working with key stakeholders to raise awareness of responsibilities and criminal offences against bats, promoting a preventative approach and improving the submission of intelligence and standards of investigation relating to bats across the UK	Lead: BCT	Lead: NWCU	Lead: BCT
<b>CITES ISSUES</b> 3 current CITES priorities of Ivory, Tortoises and Traditional Medicines <sup>2</sup> Also looking at compliance with Forestry Law Enforcement, Governance and Trade (FLEGT) EU regulations <b>Plan Owner:</b> Charles Mackay (UKBA) <b>Objective:</b> Increase the number of disruption activities and detections of illegal trade in CITES priority species by: Increasing the amount of targeted compliance activity, increasing the number of intelligence submissions and intelligence products produced, improve the quality of Analytical Assessments and complete in agreed time-scales, and increase the number of investigations and enforcement outcomes	Lead: John Hounslow (Animal Health)	Lead: NWCU	Lead(s): Ian Knox (Met) / Guy Clarke (UKBA)
<b>FRESHWATER PEARL MUSSELS</b> <b>Plan Owner:</b> Iain Sime (SNH) <b>Objective:</b> Raise awareness of criminality affecting freshwater pearl mussels in order to facilitate intelligence and incident reporting, leading to increased prevention and enforcement action	Lead: Ben Ross (SNH)	Lead: NWCU	Lead: Supt Alan Smailes (Grampian)
<b>POACHING</b> (Deer Poaching/Coursing, Fish Poaching and Hare Coursing) <b>Plan Owner(s):</b> Doug Macadam (SRPBA) (Scotland); Tom Blades (BASC) (England & Wales) <b>Objective:</b> To increase the level of awareness of poaching and hare coursing as serious wildlife crimes and build better trust and relationships between the law enforcement agencies and local rural communities, both leading to increased prevention activity, intelligence flows and enforcement success (Scotland)	Lead(s): Colin Sheldon (BASC) (Scotland) Peter Watson (Deer Initiative) (England & Wales)	Lead: NWCU	Lead(s): Alan Stewart (Tayside) (Scotland); TBC (England & Wales)
<b>RAPTOR PERSECUTION</b> (including poisoning, egg theft, chick theft, taking from the wild and nest disturbance/destruction and to concentrate on golden eagle, goshawk, hen harrier, peregrine, red kite and white-tailed eagle) <b>Plan Owner(s):</b> Chief Constable Richard Crompton (England & Wales); Supt Alan Smailes (Scotland) <b>Objective:</b> Raise community trust and awareness to facilitate intelligence and incident reporting, leading to increased prevention and enforcement activity relating to Raptor Persecution	Lead(s): Des Thomson (SNH) (Scotland); Paul Horswill (Natural England) (England & Wales)	Lead: NWCU	Lead(s): Supt Alan Smailes (Grampian) (Scotland); Supt Dave Lynch (Lincolnshire) (England & Wales)

<sup>1</sup> Priorities are presented in *alphabetical* order, *not* order of importance

<sup>2</sup> Including Rhino Horn

## UK WILDLIFE CRIME INTELLIGENCE REQUIREMENTS 2011 – 2013

Intelligence Requirement <sup>3</sup>	OBJECTIVE
<b>CITES – Annex A &amp; B Orchid species</b> Plan Owners: Madeleine Groves (RBG Kew); John Hounslow (Animal Health)	To increase intelligence and incident submissions to the NWCU
<b>CITES – Timber (with focus on Ramin)</b> Plan Owner: TBC	To increase intelligence and incident submissions to the NWCU
<b>Finch trapping</b> Plan Owners: Mike Flynn (SSPCA); Barry Fryer (RSPCA); Stephen Philpott (USPCA)	To increase intelligence and incident submissions to the NWCU
<b>Illegal taking of wild bird eggs (Op Easter)</b> Plan Owner: Alan Stewart, Tayside	To increase intelligence and incident submissions to the NWCU
<b>Illegal trade in Raptors</b> Plan Owner: Animal Health	To increase intelligence and incident submissions to the NWCU
<b>Illegal trade in Parrots</b> Plan Owner: Animal Health	To increase intelligence and incident submissions to the NWCU
<b>Introduction of Non Native Species</b> Plan Owner: TBC	To increase intelligence and incident submissions to the NWCU

<sup>3</sup> Presented in *alphabetical* order, *not* order of importance



## GRŴP LLYWIO PARTNERIAETH BIOAMRYWIAETH CYMRU 14 PAPUR I'W NODI B 12 Gorffennaf 2011

**Teitl: Gwobrau Cynllunwyr Mwyaf Ystyriol o Fioamrywiaeth y Flwyddyn  
Castell-nedd Port Talbot**

**Awdur: Rebecca Sharp - Ecolegydd yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol  
Castell-nedd Port Talbot**

### **Cefndir/Cynnydd**

Mae mwy o alw ar awdurdodau lleol i ystyried materion bioamrywiaeth wrth wneud penderfyniadau cynllunio y dyddiau hyn, o ganlyniad i ddatblygu Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol, newidiadau mewn deddfwriaeth ynghyd â phenderfyniadau llysoedd/penderfyniadau barnwrol a phenderfyniadau gan yr arolygiaeth gynllunio. Mae hyfforddiant ychwanegol sydd wedi cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru, Cymdeithas Ecolegwyr Llywodraeth Leol ac yn fewnol gan Awdurdodau Lleol wedi sicrhau bod swyddogion cynllunio'n fwy ymwybodol o ofynion bioamrywiaeth.

Mae hyn wedi gwneud bioamrywiaeth yn bwnc cyffredin i'w ystyried mewn ceisiadau cynllunio; fodd bynnag, mae rhai problemau yn gysylltiedig â hyn. Yn aml iawn mae angen darparu gwybodaeth yn seiliedig ar arolwg ar gyfer materion bioamrywiaeth, ac mewn rhai achosion dim ond ar adegau penodol o'r flwyddyn y gellir gwneud yr arolygon hyn. Gallai hyn olygu bod penderfyniadau cynllunio'n cael eu dal yn ôl, neu ambell waith gall gofynion lliniaru wneud rhai datblygiadau'n llai hyfyw. Gall fod yn anodd i swyddogion cynllunio, yn enwedig pan mae ganddynt dargedau neu pan maent yn cael eu gwthio i wneud penderfyniad ynglŷn â chais, sicrhau bod yr holl ofynion bioamrywiaeth yn cael eu bodloni'n briodol yn ogystal â rhoi sylw priodol i'r holl faterion eraill y mae'n rhaid iddynt eu hystyried.

Yn 2003, sefydlodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot ddull o gadw cofnod o gynefinoedd y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth a allai gael eu colli o ganlyniad i benderfyniadau cynllunio. Roedd hyn yn golygu bod modd mesur y golled, a darparu gwybodaeth i broses y Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol, a dechreuwyd cael darlun hefyd o'r ystyriaeth sy'n cael ei rhoi i faterion bioamrywiaeth mewn penderfyniadau cynllunio. Mae adroddiad ynglŷn â faint o gynefinoedd y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth a allai gael eu colli wedi cael ei gyflwyno i Bwyllgor y Cyngor yn flynyddol ers hynny.

Ar gyfer 2006/07 cafodd y dangosydd hwn ei ehangu er mwyn ceisio cael gwell darlun o'r sylw a roddid i fioamrywiaeth, yn gyffredinol, yn y broses gynllunio. Roedd hyn yn arbennig o berthnasol o ystyried y ddyletswydd fioamrywiaeth newydd a gyflwynwyd dan Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig (NERC). Ar gyfer pob cais cynllunio, lle'r oedd Uned Fioamrywiaeth yr Awdurdod wedi darparu argymhellion ar gyfer y gofynion yn

ymwneud â bioamrywiaeth, archwiliwyd yr hysbysiad ynglŷn â'r penderfyniad er mwyn gweld a oedd ystyriaeth briodol wedi ei rhoi i bob un, rhai neu ddim un o'r gofynion, h.y. amodau priodol wedi eu cynnwys neu, lle gofynnwyd am arolygon, sicrwydd nad oedd y penderfyniad wedi cael ei wneud cyn cael canlyniad yr arolygon. Rhoddwyd sylw penodol i ofynion Rhywogaethau sy'n cael eu Gwarchod gan Ewrop. Mae'r asesiad hwn yn cael ei wneud yn flynyddol bellach er 2006, a'r canlyniadau'n cael eu hanfon at y Pennaeth Gwasanaeth Cynllunio.

Fodd bynnag, ar ôl blynnyddoedd o roi gwybod am y mathau hyn o asesiadau roedd yn amlwg bod angen ymagwedd fwy cadarnhaol hefyd er mwyn annog swyddogion cynllunio yn hytrach na'u beirniadu o hyd, gan fod swyddogion unigol mewn llawer o achosion yn ceisio gwneud cymaint ag y gallant er budd bioamrywiaeth. O ganlyniad, penderfynodd yr Uned ehangu'r asesiad i edrych ar benderfyniadau swyddogion unigol. Unwaith eto, rhoddwyd sgôr i'r penderfyniadau gan ystyried a oedd pob un, rhai neu ddim un o'r argymhellion bioamrywiaeth wedi cael eu cynnwys yn y penderfyniad terfynol, ond edrychwyd ar hyn ar gyfer pob swyddog cynllunio unigol. Yn dilyn hynny cafodd y swyddog gyda'r sgôr uchaf o ran yr 'holl' argymhellion bioamrywiaeth wedi cael eu cynnwys ei gyhoeddi'n Gynlluniwr Mwyaf Ystyriol o Fioamrywiaeth y Flwyddyn. Os oedd gan fwy nag un swyddog sgorau tebyg yna roedd yr asesiad yn edrych ar nifer y categorïau 'rhai' a 'dim'. Cyflwynwyd dystysgrif a gwobr i gydnabod y llwyddiant hwn fel rhan o ddigwyddiadau Wythnos Bioamrywiaeth Cymru.

Y flwyddyn ganlynol cafwyd cystadleuaeth iach rhwng nifer o swyddogion cynllunio oedd i gyd yn awyddus i gael y wobr hon. Roedd y swyddogion yn awyddus i roi adborth i'r Uned Fioamrywiaeth am unrhyw beth a gyflawnwyd er mwyn sicrhau eu bod yn cynnwys cynifer ag y gallent o elfennau a fyddai o fudd i fioamrywiaeth mewn cynllun ac, yn gyffredinol, gwelwyd cryn welliant mewn cyfathrebu rhwng yr Uned a'r cynllunwyr. O ganlyniad i lwyddiant y camau hyn i ennyn diddordeb llawer o'r cynllunwyr penderfynwyd ehangu'r gwobrau y flwyddyn ganlynol i gynnwys gwobr tîm (D.S. mae adran gynllunio rheoli datblygu Castell-nedd Port Talbot wedi ei rhannu'n 3 tîm sy'n ymwneud â gwahanol ardaloedd daearyddol) a 'gwobr ystlumod' a oedd yn gwobrwyd timau a oedd yn cydymffurfio â gofynion rhywogaethau sy'n cael eu gwarchod gan Ewrop, yn enwedig ystlumod, sydd wedi achosi problemau yn y gorffennol o ran pa bryd y gellir cynnal arolygon. Yn ychwanegol at hyn, cyflwynwyd ail wobr gan fod y sgorau'n agos iawn yn 2009.

Unwaith eto, roedd gwobrau 2009 yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr gan y cynllunwyr, ond oherwydd y ffordd roedd y system sgorio'n gweithio, nodwyd bod rhai cynllunwyr sy'n ymdrin â llai o geisiadau, ond bod y rheini'n geisiadau mwy, a allai gynnig llawer iawn i fioamrywiaeth mewn un ymdrech, ar eu colled. Felly, ychwanegwyd rhagor o categorïau unwaith eto yn 2010 ar gyfer arloesi technegol (dyfarnwyd yn 2010 i'r cynlluniwr a roddodd ganiatâd i ffasâd gwyrdd cyntaf Castell-nedd Port Talbot) a chyswilt (dyfarnwyd i'r cynlluniwr y teimlid ei fod yn cyfathrebu orau â'r Uned). Oherwydd cynnydd yn y diddordeb allanol yn y gwobrau, ac yn y gwerthfawrogiad ohonynt,

cyhoeddwyd y gwobrau yn 2010 gan Gyfarwyddwr yr Amgylchedd, gan roi hwb bach arall iddynt.

Mae'r gwobrau sydd wedi eu cyflwyno hyd yn hyn yn cynnwys eitemau fel blychau nythu, tai pryfed, hadau blodau gwylt ac eitemau eraill a allai annog y swyddogion cynllunio i ddod i werthfawrogi natur yn fwy yn eu cartrefi. Mae'r holl gyllid ar gyfer y gwobrau wedi ei ddarparu drwy raglen grantiau craidd Llywodraeth Cymru/Cyngor Cefn Gwlad Cymru.

Gan fod y cynllun yn cael mwy a mwy o gydnabyddiaeth mae Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru wedi cynnig noddi'r gwobrau yn 2011. Y brif wobr bellach yw aelodaeth o'r ymddiriedolaeth a thrip i Ynys Skomer, i'w cyflwyno ar 13 Mehefin yn dilyn Wythnos Bioamrywiaeth Cymru.

### ***Cynllun/Cynigion***

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yn bwriadu parhau â'r cynllun cyhyd ag y mae adnoddau ar gael.

### ***Y Camau Gofynnol***

- Ffurio tîm gorchwyl a gorffen i gyflawni'r cam nesaf                      ~~DO/NADDO~~
- Cadarnhau y gallwn barhau fel y nodir uchod                              ~~DO/NADDO~~
- Gofyn i holl aelodau PBC .....    ~~DO/NADDO~~  
nodi'r camau a gymerwyd a'u llwyddiant, a hybu cynlluniau tebyg mewn awdurdodau lleol eraill yng Nghymru.



## GRŴP LLYWIO PARTNERIAETH BIOAMRYWIAETH CYMRU 14 PAPUR I'W NODI C 12 Gorffennaf 2011

**Teitl: Ymestyn allan gyda Natur Cymru**

**Awdur:** Huw Jenkins, rheolwr marchnata Natur Cymru

### **Cefndir/Cynnydd**

Mae Natur Cymru yn helpu aelodau o Bartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru i gyfathrebu a, thrwy gyhoeddi erthyglau yn ddiweddar ar gen a gwenyn, i annog mwy o ymwybyddiaeth a mwy o gasglu data ar gyfer y grwpiau hyn o rywogaethau. Gweler papur Tachwedd 2010

<http://www.biodiversitywales.org.uk/content/uploads/documents/SG%20Meetings/SG12/F%20Natur%20Cymru%20SG12.pdf>

Er mwyn cyrraedd cynulleidfa ehangach rydym wedi cyflwyno cyfryngau cymdeithasol Natur Cymru (blogio, YouTube a thrydaru). Hyd yn hyn rydym wedi gwneud 16 ffilm i hybu dealltwriaeth o ecosystemau ac mae dolenni cyswllt yn arwain i'r rhain i'w gweld yn

<http://naturcymru.blogspot.com/2011/06/natur-cymru-youtube-services.html>

### **Cynllun/Cynigion**

Gallwn eich helpu i gyrraedd y gynulleidfa rydych yn ei thargeddu.

Gall hyn fod drwy gyhoeddi erthyglau addas yn Natur Cymru, a allai gael eu hailgyhoeddi yn rhywle arall (Daily Post, Western Mail, Walking Wales ac ati).

Neu, gallwn lunio strategaeth i gyfleo eich neges, e.e. drwy lunio datganiadau i'r wasg sy'n debygol o ennyn diddordeb pobl, astudiaeth achos, erthyglau, ffilmiau, blogiau ac ati.

O ystyried cymaint o ymchwil a gwaith caled sy'n cael ei wneud ar gyfer prosiectau cadwraeth mae'n drueni os nad oes sylw digonol yn cael ei roi i'r gwaith cyfathrebu. Yn aml iawn mae'r gwaith hwnnw'n gorfol cael ei wneud gan rywun sy'n rhy brysur ac sydd mae'n debyg yn rhy agos at y pwnc.

Os ydych yn gwneud y gwaith yn fewnol, neu'n gofyn i weithiwr proffesiynol allanol ei wneud, mae'n rhaid i chi dalu. Allwn ni ddim gwneud y gwaith am ddim, ond mae'n gwasanaethau ni'n gystadleuol, ac weithiau rydym yn llwyddo i gael grantiau. Rydym yn barod i ystyried cymwynas neu drefniant arall yn lle tâl.

### ***Camau Gofynnol***

Gofynnir i holl aelodau Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru ystyried Natur Cymru fel darpar bartner pan mae angen gwaith cyfathrebu da. Cysylltwch â [huw.naturcymru@btinternet.com](mailto:huw.naturcymru@btinternet.com) 01766 590272.

**GRŴP LLYWIO PARTNERIAETH BIOAMRYWIAETH CYMRU 14  
PAPUR I'W NODI D  
12 Gorffennaf 2011**

**Teitl: Berdysen Oresgynol (*Dikerogammarus villosus*)**

**Awdur: Nick Bialynicki-Birula, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru**

**Cefndir/Cynnydd**

Ers darganfod rhywogaeth estron y berdys goresgynol (*Dikerogammarus villosus*) ('berdys rheibus') yn Grafham Water yn Swydd Gaergrawnt, ac yna ym Mae Caerdydd ac Eglwys Nunydd yn Ne Cymru, mae Grŵp Gorchwyl Cenedlaethol wedi cael ei sefydlu i arwain yr ymateb yng Nghymru a Lloegr.

Mae'r Grŵp yn cynnwys Defra a Llywodraeth Cynulliad Cymru a chyngorwyr o Asiantaeth yr Amgylchedd, Natural England a Chyngor Cefn Gwlad Cymru. Mae Nodiadau Briffio Cenedlaethol yn egluro'r sefyllfa a sut mae'r ymateb yn cael ei reoli –  
<https://secure.fera.defra.gov.uk/nonnativespecies/downloadDocument.cfm?id=563>

**Cynllun/Cynigion**

Mae'r Grŵp wedi datblygu cynllun ymateb cenedlaethol a chamau gweithredu sy'n ymdrin â mesurau bioddiogelwch, nodi i ba raddau y mae Dv wedi ymledu a diogelu safleoedd gwarchod natur. Mae hefyd yn cynnal ymchwil er mwyn cynyddu'n gwybodaeth gyfyngedig am effaith Dv a beth yw'r ffordd orau o ymdrin â'r broblem.

Mae Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru wedi cymryd samplau ac mae'n monitro 49 o safleoedd risg uchel yng Nghymru, ond hyd yn hyn nid oes achosion wedi eu darganfod mewn safleoedd ar wahân i'r tri uchod.

Mae perchnogion, rheolwyr a gweithredwyr y safleoedd ym Mae Caerdydd ac Eglwys Nunydd yn gweithredu mesurau bioddiogelwch sy'n seiliedig ar gyngor y Nodyn Briffio Cenedlaethol.

Mae grŵp cyfathrebu cenedlaethol wedi cael ei sefydlu hefyd gydag ystod eang o randdeiliaid. Mae wedi datblygu ymgyrch genedlaethol ARCHWILIO, GLANHAU A SYCHU er mwyn tynnu sylw pawb sy'n defnyddio'r dŵr at y mesurau bioddiogelwch hyn:  
<https://secure.fera.defra.gov.uk/nonnativespecies/index.cfm?pageid=337>

### ***Camau Gofynnol***

- Aelodau Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru i ddarllen y nodyn briffio cenedlaethol, sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r cyngor diweddaraf ynglŷn â bioddiogelwch a helpu i hyrwyddo'r ymgyrch *ARCHWILIO, GLANHAU A SYCHU lle bynnag y bo modd.*

# GRŴP LLYWIO PARTNERIAETH BIOAMRYWIAETH CYMRU 14

## PAPUR I'W NODI E

### 12 Gorffennaf 2011

#### Teitl: Gwaith Cynllunio a Chyllidebu PBC

Awdur: Sean McHugh, Tîm Cymorth PBC

#### Cyllideb PBC

##### **Cefndir/Cynnydd**

Mae grant CCGC ar gyfer gweithgareddau PBC yn 2011/2012 yn £100,000. Mae hyn ar gyfer y cyfnod o 1 Ebrill 2011 hyd 31 Mawrth 2012. Mae cynllun drafft y gyllideb (Ebrill 11 -Mawrth 2012) i'w weld yn Atodiad 1 ynghyd â dadansoddiad o wariant Blwyddyn 4.

##### **Cynllun/Cynigion**

Rhagwelir y bydd angen nifer o ychwanegiadau a/neu ddiweddarriadau i'r gyllideb mewn ymateb i fewnbwn gan y grŵp llywio a bydd y rhain yn cael eu cynnwys gan y tîm cymorth ac yn cael eu dosbarthu ar ôl y cyfarfod.

#### **Y Camau Gofynnol**

1. Cymeradwyo'r gyllideb fel y mae wedi ei hamlinellu ac awgrymu unrhyw newidiadau sydd eu hangen.

#### **Wythnos Bioamrywiaeth Cymru 2012**

##### **Cefndir/Cynnydd**

Mae Wythnos Bioamrywiaeth Cymru'n cael ei chynnal yn flynyddol er 2002 a hynny fel arfer yn ystod yr ail wythnos ym mis Mehefin. Mae wedi sefydlu ei lle ar y calendr erbyn hyn. Y dyddiadau sy'n cael eu hawgrymu ar gyfer 2012 yw 9-17 Mehefin. Mae PBC wedi cefnogi'r digwyddiad yn ganolog, gan ddarparu nwyddau, cyhoeddusrwydd ac adnodd canolog ar y we, gan gynnwys calendr digwyddiadau rhyngweithiol. Dylai'r dull gweithredu a ddefnyddir eleni (a digwyddiadau ymwybyddiaeth yn gyffredinol) ystyried y gweithgareddau sy'n ymwneud â chynhadledd Rio+20 ar Ddatblygu Cynaliadwy a Diwrnod Rhyngwladol Amrywiaeth Fiolegol ar 22 Mai 2012 sy'n seiliedig ar thema "Bioamrywiaeth y Môr a'r Arfordir".

#### **Y Camau Gofynnol**

2. Cytuno ar ddull gweithredu Wythnos Bioamrywiaeth Cymru 2012 a chadarnhau'r dyddiadau
3. Nodi themâu Rio+20 a'r Diwrnod Rhyngwladol Amrywiaeth fel canolbwyt i ddigwyddiadau sy'n ymwneud ag ymwybyddiaeth o'r amgylchedd


#### **Atgoffa am Gynhadledd PBC 2011**

Cynhadledd PBC, 14-15 Medi, Sicrhau Ecosystemau Iach - datblygu gwytnwch, adfer bioamrywiaeth, Coleg y Drindod, Caerfyrddin.

**Mae rhaglen y gynhadledd a ffurflen archebu lle i'w gweld ar wefan PBC**

#### **Y Diweddaraf am Gynhadledd Cynllun Gweithredu'r DU ar Fioamrywiaeth**

Cynhelir cynhadledd nesaf Cynllun Gweithredu'r DU ar Fioamrywiaeth yn 2012 a bydd yn cysylltu â Chynhadledd y Partïon ar y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol. Nid oes manylion ar gael eto am y lleoliad a'r dyddiadau.



## **Cynhadledd PBC 2012**

Mae angen ardal a lleoliad ar gyfer cynhadledd 2012. Ardal a awgrymwyd – De Cymru (Caerdydd, Casnewydd, Pontypridd neu Abertawe); Dyddiadau sy'n cael eu hawgrymu: 12-13 Medi 2012

### ***Y Camau Gofynnol***

4. Penderfynu ar leoliad a dyddiad Cynhadledd PBC 2012

**DRAFT Budget - Wales Biodiversity Partnership**  
**Year 5 2011 - 2012**

**Staff costs (2 staff)**

Salary	57400
Travel and Subsistence	2000

**Administration/Office costs**

Office Overheads (hosting /accounts)	9000
--------------------------------------	------

**Volunteer Costs**

Volunteer Expenses	500
--------------------	-----

**Capital Expenditure**

IT and Communication equipment	150
Mobile Phones	400

**WBP Workplan Project Items**

BARS strategic support	10000
Website	300
Conference	5500

**Taxonomic Groups Funding/Nature Consv Funding**

Vice county book fund	300
LRC wildlife recording training	3800
Taxonomic groups (SG presentations x2)	3200
Lichen trainer support	750

**Wales Biodiversity Week**

Wales Biodiversity Week	5500
-------------------------	------

**WBP Workplan General Items**

Marketing/Publicity/Materials	300
Shows/Events/Meetings	400

**Other project costs**

WBP Staff Development	500
-----------------------	-----

**Total** **100000**

## **WBP Year 4 Expenditure**

### **Staff costs (2 staff)**

Salary	50,890.35
Travel and Subsistence	2,955.01

### **Administration/Office costs**

Office Overheads (hosting/accounts)	9843
-------------------------------------	------

### **Volunteer Costs**

Volunteer Expenses	303.2
--------------------	-------

### **Capital Expenditure**

IT and Communication equipment	0
Mobile Phones	516.43

### **WBP Workplan Project Items**

BARS strategic support	10000
Website	922.25
Conference	6493

### **Taxonomic Groups Funding/Nature Consv Funding**

Vice county book fund	100
LRC wildlife recording training days	3507.6
Taxonomic groups (SG presentations)	835
Elm & Aspen Project	1500

### **Wales Biodiversity Week**

Wales Biodiversity Week	6921.18
-------------------------	---------

### **WBP Workplan General Items**

Marketing/Publicity/Materials	402
Shows/Events/Meetings	1642.89

### **Other project costs**

WBP Staff Development	500
WBP Recruitment costs	279

**Total** **97610.91**

## GRŴP LLYWIO PARTNERIAETH BIOAMRYWIAETH CYMRU 14 PAPUR I'W NODI F 12 Gorffennaf 2011

**Teitl: Grŵp Dyfodol Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Partneriaeth  
Bioamrywiaeth Cymru (PBC)**

**Awdur: Julia Korn ar ran Grŵp Dyfodol Cynlluniau Gweithredu  
Bioamrywiaeth PBC**

### **Cefndir/Cynnydd**

Yn 2007 cyhoeddodd Defra adroddiad ar ran Pwyllgor Sefydlog y Deyrnas Unedig ar Fioamrywiaeth a oedd yn argymhell y dylai'r cyfrifoldeb am gyflawni Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth i raddau helaeth fod yn gyfrifoldeb wedi ei ddirprwyo ("Conserving Biodiversity - The UK Approach"). Cafodd yr adroddiad hwn ei arwyddo gan y Gweinidogion ar y pryd ar gyfer pob un o'r 4 gwlad sydd yn y Deyrnas Unedig. Mewn ymateb sefydloedd Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru grŵp gorchwyl a gorffen Dyfodol Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth gyda'r nod o ddatblygu a gweithredu'r dull o ymdrin â Chynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth yng Nghymru. Arweiniodd hyn at sefydlu elfennau llwyddiannus ehangach yr hen ddull gweithredu a oedd yn cynnwys PBC, e.e. Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol (partneriaethau CGBLI a Grŵp Llywio PBC) a sefydlu grwpiau newydd i ymdrin â swyddogaethau grwpiau'r Deyrnas Unedig a'u gwella. Cyhoeddwyd y dull gweithredu newydd yn Fframwaith Bioamrywiaeth diwygiedig Cymru yn Chwefror 2010 a chyfarfu'r grŵp am y tro olaf ychydig ar ôl hynny. Un o'r camau gweithredu yn y cyfarfod hwnnw oedd y dylid ailsefydlu'r grŵp yn y dyfodol pe bai angen.

Yn ystod 2010 derbyniwyd yn gyffredinol bod gwledydd ym mhob cwr o'r byd wedi methu â chyflawni targedau rhyngwladol, cyfandirol a chenedlaethol i arafu, ac atal colli bioamrywiaeth. Mewn ymateb i hyn mae polisiau bioamrywiaeth wedi cael eu hadolygu ar bob lefel. Yn Nhachwedd 2010, cytunodd 10<sup>fed</sup> cyfarfod Confensiwn y Partïon (COP 10), yn y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol, ar Gynllun Strategol rhyngwladol newydd ar gyfer Bioamrywiaeth (2011-2020) a oedd yn nodi gweledigaeth hirdymor (2050), Cenhadaeth dymor byr (2020) a nodau ac is-dargedau. Ym Mai 2011 cyhoeddodd yr Undeb Ewropeaidd Strategaeth Fioamrywiaeth newydd â gweledigaeth hirdymor a thargedau hyd at 2020. Yng Nghymru cynhaliodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ymchwiliad i geisio darganfod pam na lwyddasom i gyflawni targedau 2010 a chyhoeddodd adroddiad ag 19 o argymhellion. Cafodd y rhan fwyaf o'r argymhellion hyn eu derbyn gan y Gweinidog ar y pryd, Jane Davidson. Roedd y gwaith o ddatblygu'r Fframwaith Amgylchedd Naturiol yng Nghymru'n canolbwytio ar ddulliau integredig o gyflawni amcanion amgylcheddol drwy'r dull ecosystemau, ac mae'r adolygiad o gyrrf amgylcheddol yn cynnig cyfleoedd a heriau i fioamrywiaeth. Mae'r Grŵp Dyfodol Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth wedi cael ei ailsefydlu er mwyn edrych ar hyn. Y brif dasg fydd adolygu

Fframwaith Bioamrywiaeth Cymru a sicrhau ei fod yn cael ei gyfuno â mecanweithiau cyflawni ar gyfer y Fframwaith Amgylchedd Naturiol, gan gynnwys drwy waith unrhyw gorff amgylcheddol newydd.

Bydd y grŵp yn adrodd yn ôl i Grŵp Llywio Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru ac i Grŵp Llywio ar y Cyd y Fframwaith Amgylchedd Naturiol a'r Corff Amgylcheddol Sengl.

*Cynllun/Cynigion*

Papur gwybodaeth yn unig yw hwn.

**GRŴP LLYWIO PARTNERIAETH BIOAMRYWIAETH CYMRU 14****PAPUR I'W NODI H****12 Gorffennaf 2011**

**Teitl: Y Diweddaraf am y System Adrodd ar Weithredu Bioamrywiaeth (BARS)**

**Awdur: Alys Edwards, Swyddog Technegol, Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru**

**Cefndir/Cynnydd**

System wybodaeth integredig sy'n seiliedig ar y we yw'r System Adrodd ar Weithredu Bioamrywiaeth (BARS). Cafodd ei datblygu yn 2002 er mwyn cyflawni'r her o adrodd ar Gynllun Gweithredu'r Deyrnas Unedig ar Fioamrywiaeth. Mae deunydd wedi cael ei ychwanegu at y system, ac mae wedi cael ei hehangu, ond nid yw wedi cael ei newid yn sylweddol na'i diweddar ers iddi gael ei rhyddhau. Yn 2010, ar ôl ymgynghori â'r defnyddwyr presennol, nododd partneriaeth BARS nifer fawr o faterion yr oedd yn ofynnol eu datblygu.

Bydd y datblygiadau diweddaraf yn rhoi galluoedd newydd i'r system, a'r nod yw gwneud y system newydd yn llawer mwy hygrych a thryloyw. Mae'r gwaith hwn o ailddatblygu'r system BARS yn adlewyrchu symudiad sylfaenol oddi wrth y drefn bresennol sy'n canolbwyntio ar gofnodi cynlluniau gweithredu bioamrywiaeth. Prif nod datblygu'r system BARS fydd cofnodi a chyflwyno gwybodaeth am y camau gwirioneddol sy'n cael eu cymryd er budd bioamrywiaeth. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae partneriaid BARS, gan gynnwys y Cyngor Cefn Gwlad a Phartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru, wedi bod yn gweithio er mwyn adnewyddu ac egluro eu hachos busnes ar gyfer System Adrodd ar Weithredu Bioamrywiaeth yn y DU er mwyn cefnogi'r strategaethau bioamrywiaeth sy'n cael eu datblygu yn y gwahanol wledydd neu swyddogaethau eraill.

**Datganiad Strategol BARS:**

*Dylai system BARS sydd wedi ei datblygu o'r newydd a'i hadfywio gynnig system agored ac effeithiol, â ffocws mwy pendant, er mwyn cofnodi a chyflwyno gwybodaeth am gamau gweithredu bioamrywiaeth yn y Deyrnas Unedig. Rhaid iddi allu cydgasglu ystadegau yn ymwneud â chamau gweithredu unigol, gan ganolbwyntio'n fwyaf penodol ar gyfanswm y gwaith rheoli cynefinoedd a rhywogaethau sy'n cael ei wneud. Dylid gallu hidlo'r wybodaeth hon yn ôl amcanion bioamrywiaeth ac edrych arni'n ofodol mewn mapiau rhwngweithiol ac ar draws gwahanol gyfnodau o amser.*

**Cynllun/Cynigion**

Nid oes manylion clir ar gael i nodi beth y mae'n ofynnol i grwpiau sy'n arwain gwaith yn ymwneud â strategaethau Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth yn y pedair gwlad ei wneud wrth adrodd am gamau gweithredu. Mae llawer o ansicrwydd o hyd ynglŷn â ffurf y strategaethau newydd hyn sy'n canolbwyntio

mwy ar gyflawni ar raddfa tirwedd, hybu gwasanaethau ecosystem a sefydlu rhwydweithiau ecolegol. Fodd bynnag, er bod y strategaethau sydd y tu ôl i broses y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth yn esblygu ac yn newid, ychydig iawn o newidiadau a welwyd o ran y mathau cyffredinol o gamau gweithredu ar lawr gwlad a'u hamcanion.

Roedd y strategaeth ddatblygu ar gyfer BARS yn 2010-2011 yn canolbwytio ar wella gallu creiddiol y system i ddangos dosbarthiad camau gweithredu unigol, seiliedig ar safleoedd, a gymerwyd er budd bioamrywiaeth. Mae hyn mewn gwirionedd yn dangos newid pwyslais o broses sy'n cael ei gyrru gan Gynllun Gweithredu'r Deyrnas Unedig ar Fioamrywiaeth (o'r brig i lawr) sy'n defnyddio BARS i goladu cynlluniau gweithredu bioamrywiaeth gan nodi gwaith a ddylai gael ei wneud, i broses sy'n cael ei gyrru gan gamau gweithredu (o'r gwaelod i fyny) sy'n defnyddio BARS i goladu gwybodaeth am gynlluniau bioamrywiaeth sy'n cael eu cynllunio, sydd ar y gweill neu sydd wedi eu cwblhau er mwyn creu set ddiffiniedig o amcanion ymarferol.

## **System Adrodd ar Weithredu Bioamrywiaeth yn y Deyrnas Unedig ar ôl 2010**

- **Camau Gweithredu Bioamrywiaeth Ymarferol:** Prif bwrvpas BARS yw coladu a rhannu gwybodaeth am gamau ymarferol sy'n cael eu cymryd gan unrhyw un er budd bioamrywiaeth ledled y Deyrnas Unedig.
- **Mapiau Gweithredu Rhyngweithiol:** Bydd BARS yn defnyddio technoleg GIS i gynnig y gallu i bori ac arddangos lleoliad a maint y camau gweithredu sy'n digwydd ar draws tirwedd y Deyrnas Unedig ac ar raddfa leol.
- **Dim Tystiolaeth Arsyliwi:** Ni fydd BARS yn ceisio casglu, rheoli na rhannu tystiolaeth arsyliadol o arolygon maes neu gynlluniau monitro bioamrywiaeth.
- **Rheolaeth briodol:** Bydd BARS yn dal i ddarparu ar gyfer mathau amrywiol o gamau gweithredu ond rhoddir blaenoriaeth i wybodaeth am ddulliau priodol o reoli tir sy'n cael eu cyflwyno er mwyn sicrhau budd uniongyrchol i rywogaethau a chynefinoedd.
- **Colli Bioamrywiaeth:** Bydd BARS hefyd yn coladu ac yn rhannu gwybodaeth am effeithiau negyddol ac am golli bioamrywiaeth ledled y Deyrnas Unedig.
- **Dyheadau yn ymwneud â Bioamrywiaeth:** Bydd modd cofnodi camau gweithredu sydd heb eu dechrau ond bydd y pwyslais ar waith realistig sydd wedi cael ei gynllunio. Ni fydd cofnodi camau gweithredu sy'n dangos dyhead yn unig yn cael eu hannog, a byddant yn cael eu labelu'n glir fel dyheadau.
- **Dull mwy agored o gofnodi camau gweithredu:** Ni fydd BARS yn nodi o hyn ymlaen bod angen ychwanegu camau gweithredu fel rhan o gynllun gweithredu bioamrywiaeth sy'n bodoli'n barod. Yn hytrach, bydd safon ddiwygiedig ar gyfer data yn caniatáu i unrhyw un gofrestru ac ychwanegu gwybodaeth am y camau cadarnhaol y maent yn eu cymryd er budd bioamrywiaeth yn y Deyrnas Unedig.

- **Adrodd am Fioamrywiaeth:** Bydd BARS yn cynnig ystadegau yn ymwneud â faint o gamau sy'n cael eu cymryd er budd bioamrywiaeth. Yn fwyaf arbennig, bydd BARS yn ceisio cydgasglu ystadegau am gamau gweithredu unigol er mwyn dangos cyfanswm y tir sydd wedi'i gofnodi fel tir sy'n cael ei reoli er mwyn cynnal, gwella, creu neu adfer cynefinoedd. Bydd BARS yn ceisio cynnig yr ystadegau hyn ar gyfer gwahanol gyfnodau gan helpu i ddangos unrhyw newid dros gyfnod.
- **Adrodd am gynnydd:** Mae gwahaniaeth pendant rhwng y cynnydd a gofnodwyd ar gyfer pob cam gweithredu a chynnydd tuag at yr amcan bioamrywiaeth. Mae camau gweithredu bioamrywiaeth fel arfer yn cael eu cymhwysyo a'u cwblhau ochr yn ochr neu yn olynol gan anelu at un amcan bioamrywiaeth. Bydd BARS yn cynnig dull o adrodd am gynnydd a chwblhau camau gweithredu. Bydd BARS yn cynnig ffordd o ddangos a yw'r camau gweithredu'n debygol o gyflawni'r camau gweithredu bioamrywiaeth ynteu a fydd angen rhagor o gamau. Ni all BARS gynnig mynegiad ystadegol o gynnydd tuag at gyflawni amcanion bioamrywiaeth, a hynny gan nad yw BARS yn cadw data arolygon a gwaith monitro sydd eu hangen ar gyfer hyn. Byddai buddsoddi amser yn gwneud hynny'n gorgyffwrdd â nodau ac amcanion systemau a rhwydweithiau gwybodaeth eraill sy'n cael eu hariannu ag arian cyhoeddus. Yn hytrach, ceisir integreiddio BARS yn well â'r gwahanol systemau hyn, gan gynnwys Porth y Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol.

### ***Y Camau Gofynnol***

- Gofyn i holl aelodau Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru nodi'r datblygiadau sy'n cael eu gwneud i'r system BARS ac ystyried beth yw'r ffordd orau o sicrhau bod eu sefydliad hwy'n ymwneud â'r system.